

Cylchlythyr | Circular

Cynllun Bwrsariaeth Cymhelliant Graddau Meistr Ôl-radd a addysgir 2019/20

Dyddiad: 09 Medi 2019
Cyfeirnod: W19/27HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Prifathrawon colegau addysg bellach a ariennir yn
uniongyrchol yng Nghymru
Ymateb erbyn: Nid oes angen ymateb
Cyswllt: Enw: Gemma Stephens
Ffôn: 029 2085 9642
E-bost: finance@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi manylion Bwrsariaeth Cymhelliant Graddau Meistr Ôl-radd a addysgir CCAUC, sy'n ceisio denu myfyrwyr i astudio graddau Meistr yng Nghymru mewn pynciau sy'n ymwneud â gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth a/neu i wneud gradd Meistr trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Cafodd y cynllun ei gyhoeddi yn natganiad y wasg Llywodraeth Cymru, [Bwrsariaethau newydd ar gyfer ôl-raddedigion yng Nghymru](#) ar 26 Mehefin 2019. Ei nod yw cynyddu nifer y gradddedigion Cymraeg sy'n aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i wneud gradd Meistr ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg neu feddygaeth, a elwir hefyd yn bynciau 'STEMM'. Mae'r cynllun yn ceisio cynyddu nifer y myfyrwyr Meistr yng Nghymru a gaiff eu recriwtio yn y pynciau hyn, lle mae galw uchel am gymwysterau ôl-radd ac sy'n hanfodol i dwf diwydiannau technoleg uchel ac economi ehangach Cymru.
2. Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyllid ychwanegol i fyfyrwyr wneud gradd Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy'r cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n ceisio cynyddu cyfran y myfyrwyr Meistr Cymraeg sy'n astudio yng Nghymru i 80%. Mae'r fwsariaeth ychwanegol i fyfyrwyr Meistr cyfrwng Cymraeg yn bwysig i ddatblygiad parhaus y gweithlu o siaradwyr Cymraeg, a bydd yn cyfrannu at gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn sicrhau y bydd y cyllid hwn ar gael i CCAUC o dan adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac y bydd £1.3 miliwn o'r cyllid yn cael ei ddyrannu yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 i'w ddefnyddio fel cyllid o fis Awst 2019 ymlaen. Bwriedir rhedeg y cynllun fel cynllun peilot tair blynedd o hyd, ac mae ein cynlluniau'n cymryd yn ganiataol y bydd mwy o gyllid yn dod ar gael.
4. Gan na allwn ariannu myfyrwyr yn uniongyrchol, gofynnir i ni, ar gais Llywodraeth Cymru, i ddarparu'r cyllid drwy ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Bydd y cyllid yn cael ei strwythuro yn y fath fodd fel y gallwn ddarparu'r cyllid i ddarparwyr ar gyfer darpariaeth graddau Meistr a addysgir, gyda thelerau ac amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyllid gael ei ddefnyddio i ddarparu bwrsariaethau i fyfyrwyr Meistr sy'n byw yng Nghymru a'r UE, y rhai hynny sy'n astudio'n llawn amser a'r rhai hynny sy'n astudio'n rhan-amser.
5. Mae cynllun ar wahân i fyfyrwyr 60 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru ac sydd eisiau astudio gradd Meistr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 hefyd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar hwn ar wahân.

Ymgynghori ac ystyried yr ymatebion

6. Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ([W19/24HE](#)) yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion ar gyfer dyrannu Bwrsariaethau Cymhelliant Graddau Meistr Ôl-radd a addysgir. Amlinellodd hwn y cefndir i'n cynigion, a gofynnodd nifer o gwestiynau, ac rydym wedi defnyddio'r ymatebion i'r rhain i lywio'r trefniadau terfynol. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai hynny a ymatebodd am gymryd rhan yn y broses.

7. Gwnaeth y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad gyflwyno nifer o awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r cynllun, ac mae'r rhain a sylwadau eraill wedi'u crynhoi yn Atodiad B. Pan na fydd awgrymiadau wedi'u rhoi ar waith, byddwn yn cadw'r rhain dan ystyriaeth.
8. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau'n gefnogol o'r cynllun ar y cyfan, ond roedd pryderon ynghylch manylder y gweithrediad, gyda rhai themâu'n ymddangos droeon. Er enghraifft, myfyrwyr sy'n astudio am hirach na'r hyd astudio a dybiwyd yn y dull dyrannu. Ymdrinnir â hyn ym mharagraff 15 isod. Gwnaeth nifer o ymatebwyr hefyd awgrymu y dylid cynyddu lefel y fwsariaeth cyfrwng Cymraeg i'r un lefel â'r fwsariaeth STEM. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gynyddu'r fwsariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, dylid pwysleisio mai'r darparwyr fyddai'n datblygu'r dull dosbarthu mewnol ar gyfer y cynllun. Felly, byddem yn disgwyl i rai o'r materion a godwyd drwy'r ymgynghoriad gael eu trin mewn modd sy'n ymarferol ar gyfer y darparwr unigol, yn hytrach na thrwy ganllawiau manwl a gyhoeddir gennym ni na allai fod yn gymwys i bawb. Mae materion eraill a godwyd wedi cael sylw drwy roi eglurhad ar eu cyfer yn y ddogfen hon. Gellir cael manylion pellach yn Atodiad B.

Dull dyrannu cyllid

9. Nid ydym yn gwneud newidiadau i'r dull dyrannu cyllid fel y cynigiwyd yng nghylchlythyr ymgynghori W19/24HE, paragraffau 5 i 14. Mae'r data a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dyraniad o gyllid wedi dilyn proses ddilysu, ac mae ffigurau wedi'u dilysu wedi'u defnyddio yn y dyraniadau i ddarparwyr a ddangosir yn Atodiad A.
10. Mae ein dyraniad cyllid yn seiliedig ar £2 fil i bob myfyriwr gradd Meistr STEM cymwys ac £1 fil i bob myfyriwr gradd Meistr cyfrwng Cymraeg cymwys.

Dyraniad sefydliadol mewnol

11. Disgwylir i ddarparwyr ddatblygu dull dosbarthu ar gyfer dyfarnu bwrsariaethau i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru a'r UE sy'n astudio cwrs Meistr STEM, neu gwrs Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddechrau ym mlwyddyn academiaidd 2019/20, gan ddefnyddio'r meini prawf pwnc a chyfrwng Cymraeg a ddefnyddir i ddyrannu'r cyllid. Wrth ddatblygu dull dosbarthu, bydd rhaid i ddarparwyr ystyried unrhyw gyrsiau perthnasol y maen nhw'n eu breinio. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y bwrsariaethau cymhelliant hyn yn cael eu dyfarnu yn ogystal â bwrsariaethau eraill a gynigir.
12. Bwriad y Gweinidog yw bod y bwrsariaethau a ddyfernir i fyfyrwyr cymwys gan ddarparwyr o dan y cynllun hwn yn cyd-fynd â'r symiau rydym wedi'u

defnyddio wrth ddyrannu'r cyllid a nodir ym mharagraff 10 uchod. Gall myfyriwr dderbyn y fwsariaeth STEM a'r fwsariaeth cyfrwng Cymraeg os yw'n astudio pwnc STEM trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y tybiwyd yn y dull dyrannu, byddem yn disgwyl i fyfyriwr sy'n astudio cymysgedd o bynciau STEM a phynciau eraill dderbyn cyfran briodol o'r fwsariaeth STEM.

13. Y darparwyr fydd yn asesu cymhwysedd myfyrwyr unigol. Dylid dyrannu'r bwrsariaethau i fyfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y'u diffiniwyd yn [Rheoliadau Addysg \(Cymorth i Fyfyrwyr\) \(Graddau Meistr Ôl-raddedig\) \(Cymru\) 2019](#), ond dylai'r dyfarniadau gael eu rhoi i fyfyrwyr o bob oed. Dylid asesu a yw'r cwrs mae'r myfyriwr yn ei astudio yn gwrs STEM ar sail categori pwnc academaidd y cwrs. Byddai cwrs STEM yn cael ei ystyried yn gwrs sydd â phwnc astudio o fewn categorïau pwnc academaidd 1, 2, 3, 4 neu 6 (Meddygaeth a deintyddiaeth, pynciau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth, Gwyddoniaeth, Peirianeg a thechnoleg a gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura). O 2019/20 ymlaen, defnyddir system godio Dosbarthu Pynciau Addysg Uwch (HECoS) i gategoreiddio pynciau astudio, ac mae mapio o HECoS i gategorigau pwnc academaidd ar gael ar [wefan CCAUC](#). Dylid dyrannu'r fwsariaeth cyfrwng Cymraeg i'r rhai hynny sy'n astudio 40 credyd neu fwy o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.
14. Dylai sefydliadau ddefnyddio'r bwrsariaethau i annog grwpiau a dangynrychiolir i astudio pynciau STEM a/neu i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, trwy fentrau fel WISE - [Menywod mewn Gwyddoniaeth a Pheirianeg](#).
15. Rydym wedi dyrannu'r cyllid ar sail y rhagdybiaeth y bydd myfyrwyr llawn amser yn derbyn y cyllid am flwyddyn a myfyrwyr rhan-amser dros ddwy flynedd. Fodd bynnag, ni fydd hyn bob amser yn adlewyrchu'r patrymau astudio gwirioneddol. Felly, er bod y dyraniad yn seiliedig ar hyn, dylai darparwyr wasgaru'r fwsariaeth dros hyd yr astudiaeth fel y bo'n briodol yn eu tyb nhw.
16. Gan ystyried bod gan y mwyafrif, os nad yr holl sefydliadau gynlluniau bwrsariaeth ar waith eisoes, nid ydym yn credu bod angen dyrannu unrhyw ran o'r cyllid hwn ar gyfer costau gweinyddol y cynllun hwn.

Monitro ac Adfachu

17. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019/20, bydd CCAUC yn gofyn am adroddiad monitro i ddarparu cadarnhad gan bob darparwr fod yr holl gyllid wedi'i wario yn unol â'r telerau ac amodau y cafodd ei ddyrannu oddi tanynt, h.y. bod y bwrsariaethau wedi'u dyfarnu yn unol â'r cymhwysedd a amlinellwyd uchod. Byddwn yn gofyn am adroddiadau tebyg yn y blynyddoedd dilynol y bydd y cynllun yn gweithredu.
18. Fe wnawn ni adfachu cyllid os oes angen ar sail y nifer gwirioneddol o raddau Meistr a gyflawnwyd mewn pynciau STEM a'r rhai hynny a

gwblhaodd radd Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn cymryd y ffigurau hyn o gofnod myfyriwr yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA) ac yn gwirio'r rhain yn erbyn yr amcangyfrifon a ddilyswyd a gafodd eu defnyddio wrth ddyrannu cyllid. Gan ddefnyddio'r dyraniad fesul myfyriwr o £2 fil ar gyfer pynciau STEM ac £1 fil ar gyfer cyfrwng Cymraeg, os na fydd y sefydliad yn gallu cyflawni'r niferoedd amcangyfrifedig y darparwyd y dyraniad yn eu herbyn, byddem yn adennill y swm hwn fesul myfyriwr a'i luosi â'r diffyg mewn niferoedd. Os bydd yr adfachu'n arwain at gyllid a fydd ar gael, byddwn yn ychwanegu hwn at gyllid blynyddoedd i ddod.

19. Caiff unrhyw ddata rydym yn ei ddefnyddio i ddyrannu cyllid ei gynnwys yng nghwmpas ein harchwiliad allanol o ddata addysg uwch. Caiff y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gasglu'r data eu cynnwys hefyd yng nghwmpas archwiliadau mewnol darparwyr o systemau a phrosesau data. Byddai hyn yn cynnwys gwirio pa mor rhesymol yw'r meini prawf a ddefnyddir i asesu cymhwysedd myfyrwyr i dderbyn bwrsariaeth. Gellir cael rhagor o wybodaeth yng nghylchlythyr CCAUC [W18/33HE](#) Archwiliad o Ddata Addysg Uwch 2018/19 hyd 2021/22.

Amserlen

20. Mae manylion y dyraniadau arfaethedig ar gyfer pob darparwr wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Ni allwn wneud unrhyw ymrwymiad ariannol cadarn, na thaliadau, hyd oni fyddwn wedi derbyn cadarnhad ffurfiol o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu talu'r dyraniad yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr llawn amser mewn dwy ran gyfartal, un ym mis Medi 2019 ac un ym mis Ebrill 2020. Bydd y dyraniad sy'n ymwneud â nifer y myfyrwyr rhan-amser yn cael ei dalu mewn pedwar rhandaliad cyfartal; Medi 2019, Ebrill 2020, Awst 2020 ac Ebrill 2021. Os bydd rhaid i ni ddiwygio'r proffil hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
21. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3, bwriedir cyflwyno'r cynllun hwn fel cynllun peilot tair blynedd. Rydym yn sylweddoli yr hoffai darparwyr gael cadarnhad o argaeledd cyllid y cynllun ar gyfer dechreuwyr 2020/21 mewn da bryd, a byddwn yn cadarnhau'r manylion cyn gynted â phosibl.

Gwybodaeth bellach

22. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gemma Stephens (029 2085 9642; finance@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisiau

23. Rydym wedi cynnal asesiad effaith i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried effaith polisiau ar yr iaith Gymraeg, ac ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector AU

yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried yr effeithiau posibl ar y gwaith i gyflawni'r nodau a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein hamcanion llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

24. Mae cyfrifoldeb tebyg ar ddarparwyr addysg uwch i asesu effaith eu dull dyrannu ar gyfer y bwrsariaethau, er mwyn diogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Dyraniad bwrsariaethau cymhelliant graddau Meistr ôl-radd a addysgir ar gyfer dechreuwyr 2019/20

Darparwr	Dyraniad a dalwyd i mewn: £								
	Blwyddyn academaidd 2019/20				Blwyddyn academaidd 2020/21		Cyfanswm		
	Llawr amser		Rhan-amser		Rhan-amser				
	STEMM	Cyfrwng Cymraeg	STEMM	Cyfrwng Cymraeg	STEMM	Cyfrwng Cymraeg	STEMM	Cyfrwng Cymraeg	Cyfanswm
Prifysgol De Cymru	421,339	2,000	287,418	500	287,418	500	996,175	3,000	999,175
Prifysgol Aberystwyth	68,000	7,000	2,069	0	2,069	0	72,138	7,000	79,138
Prifysgol Bangor	211,410	26,000	42,909	500	42,909	500	297,228	27,000	324,228
Prifysgol Caerdydd	402,376	3,000	82,383	500	82,383	500	567,142	4,000	571,142
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	6,240	0	32,694	1,500	32,694	1,500	71,627	3,000	74,627
Prifysgol Abertawe	609,396	23,000	73,470	500	73,470	500	756,336	24,000	780,336
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	333,409	0	30,510	0	30,510	0	394,429	0	394,429
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	84,348	0	19,968	0	19,968	0	124,284	0	124,284
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	34,580	0	34,580	0	69,160	0	69,160
Cyfanswm	2,136,518	61,000	606,001	3,500	606,001	3,500	3,348,519	68,000	3,416,519

Noder: STEMM = Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw broblemau gyda'r dull arfaethedig o ddyrannu cyllid i ddarparwyr? Os oes, amlinellwch eich problemau a darparwch ddulliau eraill lle y bo'n briodol.

Cafodd problemau o ran hen ddata'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r dyraniad cyllid eu crybwyll gan nifer o ymatebwyr. Mae'r data wedi dilyn proses ddilysu ac mae pob sefydliad addysg uwch wedi cadarnhau ei ffigurau. Fel rhan o'r broses hon, gallai darparwyr ddiweddar unrhyw ffigurau nad oeddent yn credu eu bod yn adlewyrchu eu ffigurau recriwtio'n gywir ar gyfer 2019/20, a defnyddiwyd y ffigurau hyn a gadarnhawyd i gyfrifo'r dyraniad cyllid.

Lleisiwyd pryderon ynghylch y ffaith bod cyllid myfyrwyr rhan-amser yn cael ei gyfrifo bob dwy flynedd. Mae'r cyfrifiad dwy flynedd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu yn unig, ac mae'n bosibl nad yw'n adlewyrchu'r patrymau astudio gwirioneddol. Disgwylir i ddarparwyr wasgaru'r fwrariaeth dros hyd yr astudiaeth fel y bo'n briodol yn eu tyb nhw, fel y nodwyd ym mharagraff 15 y cylchlythyr.

Roedd darparwyr yn poeni ynghylch cysondeb lefel y fwrariaeth ar draws pob darparwr. Mae paragraff 10 yn cadarnhau bwriad y Gweinidog i sicrhau bod bwrsariaethau'n cael eu dyfarnu yn unol â'r symiau a ddefnyddir wrth ddyrannu cyllid.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch pa mor hwyr y rhoddwyd y cynllun hwn ar waith. Byddwn yn cadarnhau'r manylion cyn gynted â phosibl ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Cwestiwn 2: Oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o'r dull dyrannu arfaethedig?

Lleisiwyd pryderon ynghylch y diffyg ariannol os bydd mwy o fyfyrwyr cymwys na'r rhai hynny a gafodd eu cynnwys yn y dyraniad cyllid. Mae'r data wedi mynd trwy broses lle mae pob darparwr wedi cadarnhau'r ffigurau i'w defnyddio wrth ddyrannu cyllid. Os bydd diffyg, y darparwr fydd yn gyfrifol am bennu sut y bydd hwn yn cael ei reoli, ac mae paragraffau 11-16 yn darparu canllawiau ar ddsbarthu mewnol.

Cafodd problemau posibl o ran Brexit a'r cyllid i fyfyrwyr yr UE eu codi hefyd. Gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch hyn, nid ydym wedi darparu unrhyw ganllawiau, ond disgwylir y bydd unrhyw newidiadau i'r cynllun mewn perthynas â'r mater hwn am flynyddoedd i ddod o ganlyniad i ganllawiau pellach a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn 3: Oes unrhyw broblemau ymarferol, o fewn darparwyr, a allai beri i'r dull dyrannu arfaethedig hwn, a'r disgwyliad o ran prosesau dosbarthu darparwyr, fod yn broblemus?

Nododd darparwyr fod hysbysiad hwyr y cynllun yn golygu bod anawsterau o ran gweithredu a defnyddio'r cynllun fel cymhelliant ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Cred darparwyr os bydd y cynllun yn cael ei gadarnhau'n gynt yn y blynyddoedd nesaf, bydd yn cael effaith gadarnhaol.

Codwyd nifer o faterion ynghylch y manylder o roi'r cynllun ar waith o fewn y darparwr. Y darparwr sy'n gyfrifol am ddatblygu dull dosbarthu mewnol, felly byddem yn disgwyl i'r darparwr ymdrin â'r materion hyn drwy ei ddull dosbarthu ei hun. Rhoddir rhai canllawiau ym mharagraffau 11-16. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Bydd hi'n anodd darparu'r fwsariaeth i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd, mewn nifer o achosion, gall myfyrwyr gynyddu neu leihau faint y cânt eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn.
- Yn dibynnu ar y disgwyliad o ran pryd y caiff y fwsariaeth ei thalu i'r myfyrwyr, gallai hyn gynyddu'r risg o ddyledion gwael i'r darparwr.
- Bydd unrhyw ofyniad i asesu myfyrwyr unigol o ran eu cymhwysedd yn gost ychwanegol i sefydliadau na chyllidwyd ar ei chyfer mor hwyr yn y flwyddyn.
- Bydd sut a phryd y bydd y darparwyr yn dosbarthu yn dibynnu ar bryd y byddant yn debygol o dderbyn yr arian gan CCAUC.
- Er bod y ddogfen yn nodi bod recriwtio, cadw a datblygiad yn rhai o'r sbardunau y tu ôl i'r cynnig hwn, dylai ehangu mynediad (yn unol â blaenoriaethau CCAUC ei hun) fod yn faes y rhoddir yr un faint o ffocws iddo.
- Ni ellir nodi'n gwmws faint o fyfyrwyr sy'n astudio 40 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg tan ddiwedd y flwyddyn oherwydd gall hyn ddibynnu ar ddewis myfyriwr: llwybrau astudio a'r iaith a ddewisir i gyflwyno asesiadau ynddi. Dylai darparwyr allu defnyddio rhan o'u dyraniad i ariannu'r faich weinyddol ychwanegol sy'n deillio o'r cynllun hwn: mae hyn yn ymwneud â chyfathrebu, asesu myfyrwyr cymwys a phrosesu taliadau.
- Mae'n hanfodol fod Dylunio yn ddisgyblaeth a gefnogir gan y fenter hon, oherwydd bydd yn sail i ddatblygiadau diwydiannol, e.e. cerbydau trydanol, argraffu 3D, ac ati. Mae problem bosibl o ran seilio dyraniadau ar gategoriâu pwnc academaidd.
- Dylai CCAUC gadarnhau sut y dylai darparwyr ddyrannu'r fwsariaeth ar sail gradd Meistr ar y cyd lle nad yw rhan o'r cwrs yn gymwys, e.e. defnyddio'r System Cyd-godio Pynciau Academaidd (JACs) neu fodiwlau, gyda JACs yn cael eu ffafrio.
- Mae baich gweinyddol trwm ar y cynllun yn fewnol - gwelwyd hyn o brofiad gyda Chymorth Dros Dro Llywodraeth Cymru tuag at y rhaglenni ôl-radd a addysgir.
- Mae dogfen CCAUC yn nodi bod y gwaith modelu'n seiliedig ar oddeutu £2 fil am bob gradd Meistr STEMM ac oddeutu £1 fil am bob gradd Meistr trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, bydd cyfanswm y cyllid sydd ar gael a nifer y myfyrwyr a gynhwyswyd yn y cyfrifiad o'r dyraniadau yn effeithio ar y

ffigur gwirioneddol a ddyrennir fesul myfyriwr. Mae'n anodd iawn rhagweld faint o ymrestradau y gallai sefydliad ddisgwyl eu cael – ni wyddys yn union faint o fyfyrwyr fydd yn ymuno tan ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn. Bydd hyn yn gwneud y cynllun yn anodd ei farchnata, oherwydd bydd yn anodd rhoi sicrwydd i ymgeiswyr ynghylch lefel y fwsariaeth a fydd ar gael iddynt. Mae'r cynllun newydd yn codi nifer o gwestiynau ymarferol, er enghraifft, a fydd y fwsariaeth yn cael ei dosbarthu fel taliad i fyfyrwyr neu a ellir ei defnyddio i leihau ffioedd dysgu? Pa amserlen dalu ddylai sefydliadau ei mabwysiadu? Beth yw'r darpariaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n trosglwyddo rhwng pynciau STEMM/pynciau nad ydynt yn STEMM ar ôl derbyn y fwsariaeth neu sy'n methu â chwblhau eu hastudiaethau?

Rydym wedi ceisio egluro'r materion hyn, lle y bo'n briodol ac yn bosibl, yng ngeiriad y cylchlythyr.

Cwestiwn 4: A allwch chi ragweld unrhyw broblemau gyda'r cynnig hwn a'i ryngweithiad â threfniadau tebyg eraill o fewn darparwyr?

Lleisiodd un ymatebwr bryder ynghylch y ffaith y byddai angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd yr ymdrinnir â myfyrwyr sy'n tynnu allan o'u hastudiaethau. Byddai talu bwrsariaethau ariannol mewn rhandaliadau yn cynyddu'r faich weinyddol.

Nododd un darparwr y gall fod yn ddryslyd weithiau i fyfyrwyr wahaniaethu rhwng yr ysgoloriaethau a bwrsariaethau sefydliadol amrywiol a phethau eraill a gynigir gan randdeiliaid sectorau eraill. Mae'r bwrsariaethau arfaethedig ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig a addysgir yn gyfle unigryw i fyfyrwyr a sefydliadau yng Nghymru, felly dylai'r ffordd y cânt eu cyfleu i ddarpar fyfyrwyr gael ei gwneud yn eglur ac mewn modd nad yw'n achosi dryswch a phenbleth iddynt gyda chyfleoedd eraill sy'n bodoli eisoes, fel dyfarniadau mewnol a'r bwrsariaethau y mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn eu cynnig ar hyn o bryd.

Argymhellwn fod y dulliau dosbarthu mewnol a ddatblygir gan ddarparwyr yn egluro'n glir beth yw'r fwsariaeth hon a pham ei bod yn cael ei dyfarnu. Y darparwr hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod achosion o dynnu allan yn cael sylw priodol o dan ei ddull ar gyfer y cynllun. Rhoddir rhai canllawiau ym mharagraffau 11-16.

Cwestiwn 5: Oes gennych chi farn ar y meini prawf cymhwysedd a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 11 i 13, neu ar y disgwyliad y bydd dull dosbarthu mewnol yn cael ei ddatblygu gan y darparwr er mwyn pennu cymhwysedd a dyfarnu bwrsariaethau?

Derbyniwyd adborth cadarnhaol ynghylch cyflwyno cyllid ychwanegol i fyfyrwyr 60 oed a hŷn sydd eisiau astudio ar gyfer gradd Meistr yn ystod 2019/20.

Gwnaeth ymatebion pellach godi materion ynghylch costau gweinyddol a fyddai'n cael eu darparu ar gyfer y cynllun a'r ymarferoldeb o weinyddu'r cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Hepgor ffioedd fyddai'r ffordd weinyddol fwyaf effeithlon o ymdrin â hyn. Byddai talu bwrsariaethau ariannol i fyfyrwyr yn gofyn i ddarparwyr gasglu manylion cyfrif banc â llaw a dilyn prosesau gofyn am daliad/talu â llaw er mwyn eu gweithredu.
- Mae'r awgrym y dylai'r meini prawf cymhwysedd fod yr un peth â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer benthyciadau myfyrwyr yn bragmataidd, ond dylid osgoi cyflwyno system weinyddol feichus i asesu cymhwysedd y myfyrwyr hynny nad ydynt eisiau derbyn y benthyciad. O safbwynt prifysgol, byddai'n haws cyfyngu cymhwysedd i ddim ond y rhai hynny sy'n barod i wneud cais i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr a chael eu cymhwysedd domisil wedi'i sefydlu drwy'r modd hwnnw.
- Mewn achosion lle mae gan sefydliad fwy o fyfyrwyr na'r hyn a ragwelwyd, a yw'n gallu eu dyrannu ar sail 'cyntaf i'r felin'?
- A oes disgwyliad y bydd pob myfyriwr sy'n gwneud cwrs ôl-radd a addysgir mewn pwnc STEM yn derbyn yr un faint o fwrsariaeth, neu a all y sefydliadau ddyfarnu gwahanol fwrsariaethau yn ôl lle maen nhw'n credu y bydd yn cymell mwy o fyfyrwyr i ymrestru?
- Mae angen eglurhad ar a fyddai myfyrwyr STEM sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymwys i'r ddwy fwrsariaeth.

Rydym wedi cadarnhau ym mharagraff 16 na fyddwn yn dyrannu cyllid ar gyfer costau gweinyddol y cynllun hwn gan fod y mwyafrif o'r sefydliadau, os nad hwy oll, eisoes yn gweithredu cynlluniau bwrsariaeth.

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau pellach, a byddwn yn eu cadw dan ystyriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dylid ehangu'r cynllun i gynnwys myfyrwyr a ariennir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) - gallai'r rhain cael eu hystyried o hyd fel poblogaeth i'w thargedu ar gyfer eu cadw o fewn Cymru. Nodwyd bod myfyrwyr a ariennir gan HEIW yn arbennig o ddiog am beidio â chael eu cynnwys mewn cynlluniau o'r fath – yn aml, maen nhw'n fwy tebygol o fod yn fyfyrwyr â chyfrifoldebau teuluol/gofalu lle byddai'r cymorth ariannol ychwanegol yn ddefnyddiol iddynt.
- Dylai'r fwrsariaeth fod ar gael i unrhyw fyfyriwr sydd wedi graddio mewn rhaglen israddedig yng Nghymru ac sydd nawr yn parhau i lefel gradd Meistr.

Mae sylwadau eraill wedi cael sylw drwy roi eglurhad yn y cylchlythyr hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y nifer bychan o fyfyrwyr MSc sy'n gwneud cwrs llawn amser dwy flynedd o hyd a fyddai'n gwerthfawrogi eglurhad ynghylch a fyddent yn gymwys i gael cyllid ar gyfer o leiaf un flwyddyn o'u cwrs.
- Cyn y gall darparwyr roi unrhyw system ddosbarthu ar waith, byddai angen iddynt wybod faint o arian y byddant yn ei dderbyn, disgwyliad clir ar sut y bydd yn cael ei ddyrannu i fyfyrwyr unigol (e.e. yr un swm i bob myfyriwr, swm pendant na fydd yn newid, fel y disgrifiwyd mewn ymatebion eraill), a diffiniad eglur o gymhwysedd, ac os yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn gosod eithriadau (e.e. i fyfyrwyr dros 60 oed), pa reolau gwirioneddol a gymhwysir ganddynt.

Cwestiwn 6: Y bwriad yw sicrhau bod y cyllid hwn ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Os caiff cyllid ei gytuno ar gyfer dechreuwyd blwyddyn academaidd 2020/21, beth yw'r dyddiadau hanfodol ar gyfer cadarnhau manylion y cyllid y bydd ar ddarparwyr ei angen er mwyn cael digon o amser i farchnata a gweithredu'r trefniadau?

Gwnaeth dyddiadau hanfodol ymatebwyr amrywio rhwng mis Medi 2019 a mis Ionawr 2020. Fe wnawn ni gadarnhau manylion y cynllun ar gyfer 2020/21 cyn gynted â phosibl.

Cwestiwn 7: Oes unrhyw broblemau pellach gyda'r cynigion hyn ar gyfer y cynllun bwrsariaeth yr hoffech dynnu ein sylw atynt?

Nododd un ymatebwr y credir bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol, ond oherwydd yr amseru, bydd mwy o effaith yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Dylid asesu canlyniadau'r cynllun peilot felly ar ddata 2020/21.

Mae materion eraill a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi cael sylw yn y cwestiynau uchod ac yn yr esboniadau o fewn y cylchlythyr hwn. Roedd y materion hyn yn cynnwys:

- Bydd angen cyflwyno prosesau i weinyddu'r cynllun, a bydd profiad o'r Fwrsariaeth Dros Dro ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir yn 2018/19 yn helpu i wneud hyn mor gyflym â phosibl;
- Gan ei fod yn gynllun peilot tair blynedd a bod astudio rhan-amser yn cael ei ganiatáu, bydd angen darpariaeth ar gyfer y rhai a fydd yn cario drosodd i bedwaredd flwyddyn academaidd.
- Mae angen eglurhad ynghylch a fyddai myfyrwyr yn gymwys i dderbyn y fwrsariaeth ar gyfer STEM a'r fwrsariaeth cyfrwng Cymraeg neu ai un yn unig y gallant dderbyn.
- Os bydd y cynllun yn parhau y tu hwnt i 2019/20, bydd angen ystyried y canlyniadau anfwriadol posibl a allai ddeillio o symud o JACS i HECOS a/neu unrhyw newidiadau i gategoriâu cyllido CCAUC er mwyn sicrhau tegwch wrth ddynodi cyrsiau STEM.

Mae'r materion eraill a godwyd y byddwn yn eu cadw dan ystyriaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cyfle i bartneriaeth myfyrwyr o fewn y gwaith o fonitro'r cynigion. Er enghraifft, Undeb y Myfyrwyr yn cael dewis cyfrannu at yr adroddiad monitro sydd angen ei wneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2019/20. Byddai hwn yn rhoi'r cyfle i gael safbwynt ychwanegol, annibynnol ar effaith ac effeithiolrwydd y cynnig.
- Y potensial i gynnwys mwy o hyblygrwydd o ran y diffiniad o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae'n bosibl iawn y bydd myfyrwyr a dderbyniodd addysg yng Nghymru yn cael gwaith y tu allan i Gymru ar ôl cwblhau'r radd gyntaf, cyn penderfynu gwneud cwrs ôl-raddedig yn ddiweddarach. Efallai na fyddant yn gymwys i'r cynllun mwyach ar sail lle maen nhw'n byw. Oes unrhyw botensial i ehangu'r cymhwysedd er mwyn denu dinasyddion o Gymru yn ôl i gael addysg Meistr?

Lleisiodd ymatebwr bryder ynghylch lefel y cyllid sy'n cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Gwnaeth yr ymatebwr nodi bod y cynnig cyfredol yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.3 miliwn yn unig i'r cynllun peilot tair blynedd hyd yn hyn, ac y bydd £2.2 miliwn yn dod o gyllideb 2020/21. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer 2020/21, a fydd hyn yn lleihau'r cyllid y bydd sefydliadau yn ei dderbyn? Os felly, bydd y cynllun hwn yn lleihau'r incwm y mae prifysgolion yn ei dderbyn ac yn y ffurf arfaethedig gyfredol, lle bydd sefydliadau'n ei weinyddu, bydd yn cynyddu costau'r brifysgol. Nodwn y pryder hwn, ond gallwn gadarnhau ein bod yn cynllunio ar sail y ffaith y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol.

Cwestiwn 8: A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol neu ganlyniadau anfwriadol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant, egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

Roedd yr holl ymatebwyr yn credu bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol.

Cwestiwn 9: Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol fydd y cynnig yn eu cael ar y canlynol:

- **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i**
- **beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Roedd yr holl ymatebwyr yn credu ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar hyn gydag ychydig o oblygiadau niweidiol.

Roedd yr effeithiau cadarnhaol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r trothwy 40 credyd yn fanteisiol, oherwydd mae'n rhoi'r cyfle i siaradwyr nad ydynt yn rhugl a dysgwyr i gael mynediad at y gronfa ac mae'n rhoi cymhelliant iddynt ddefnyddio'r iaith.
- Bydd yn annog mwy o fyfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel AU, ac yn sicrhau bod llwybr datblygu eglur drwy gydol y system addysg, o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol, a thrwy gydol eu taith AU o fod yn israddedigion i fyfyrwyr ôl-raddedig.
- Bydd yn bodloni gofynion myfyrwyr, ac yn ateb galwadau gan gyflogwyr sy'n chwilio am siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i fyfyrwyr astudio cyrsiau Meistr ôl-raddedig a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'r gronfa o bobl academiaidd a fydd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.
- Nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaethau mwyach drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir, felly byddai'r cynnig yn pontio'r bwlch rhwng yr ysgoloriaethau Cymraeg a gynigir ar lefel israddedig a lefel PhD.

Nodwyd un effaith niweidiol:

- Gallai sefydliadau sy'n cynnig pwnc penodol ar lefel israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid ar lefel ôl-raddedig fod mewn perygl o weld cwmp yn y nifer y maen nhw'n eu recriwtio i'w darpariaeth israddedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda'r fwsariaeth hon, gallai myfyrwyr ddewis gwneud cais i sefydliadau lle gallant ddatblygu drwy'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallai hyn gael goblygiadau uniongyrchol ar dargedau a darpariaeth israddedig cyfrwng Cymraeg sefydliadau eraill.

Cwestiwn 10: A ellid newid y cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:

- **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i**
- **beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Nid oedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, cynigiwyd yr awgrymiadau canlynol ar gyfer y cynllun, a byddwn yn cadw'r rhain dan ystyriaeth mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru:

- Cynyddu'r fwsariaeth cyfrwng Cymraeg i'r un lefel â STEM; ei chynyddu i £3 mil fel y cyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; cael dull cam wrth gam i'r rhai hynny sy'n cwblhau gradd Meistr yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynigiwyd hefyd y dylid lleihau nifer y credydau o 40 i 30. Mae llawer o fodiwlau'n werth 15 credyd, felly byddai hyn yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr cymwys oherwydd byddai angen iddynt gymryd dau fodiwl drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na thri.
- Roedd awgrym pellach yn cynnwys ystyried pynciau sy'n alwedigaethol eu natur er mwyn paratoi myfyrwyr i ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn hyderus o fewn y gweithle.
- Cafodd awgrym ei wneud hefyd bod achos dros ddadlau y dylid cynnig yr holl fwsariaethau i raglenni Meistr mewn pynciau STEM yn unig, hyd yn oed y rhai hynny a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.